

## Cyflwyniad

- Adroddodd y Gronfa elw buddsoddi o 5.11% ar gyfer y flwyddyn gydag asedau net yn cynyddu o £2,791 miliwn i £2,929 miliwn. O safbwynt buddsoddi mae'r flwyddyn wedi gweld rhai cyfnodau o gynnydd positif ond hefyd ansicrwydd mawr yn y farchnad a chyfnodau heb, yn bennaf tuag at ddiwedd 2018.
- Mae'r baich gwaith gweinyddol wedi parhau i gynyddu yn y rhan fwyaf o feysydd gyda mwy na 13,000 o dasgau craidd yn cael eu hymgymryd. Daeth taliadau i bensiynwyr a'u dibynnyddion i £119 miliwn yn ystod y flwyddyn, gan gynorthwyo'r sawl sydd wedi ymddeol.
- Eleni, mae'r Gronfa wedi gorfod ystyried sut orau i fanteisio ar gyfleoedd buddsoddi newydd sy'n cael eu cyflwyno gan Bartneriaeth Bensiwn Cymru (WPP) wrth i is-gronfeydd ecwiti byd-eang gael eu lansio ym mis Ionawr 2019. Mae'r gronfa eisoes wedi buddsoddi ei threfniadau goddefol drwy gyfrwng dull cydweithredol yng Nghymru ac felly mae wedi rhoi mwy na 30% o fewn trefniadau buddsoddi cyfunol hyd yma a bydd hyn yn parhau i mewn i'r flwyddyn nesaf.
- Mae pwysigrwydd y gronfa fel buddsoddwyr cyfrifol wedi bod ar y blaen eto eleni, gan sicrhau ffocws ar faterion economaidd, cymdeithasol a llywodraethu, ac ar yr un pryd wrth fod yn glir bod yn rhaid i'r Gronfa weithredu er budd gorau ei haelodau.

**Nigel Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyo, Adnoddau Mehefin 2019**

## Buddsoddiadau


Yn unol â strategaeth hirdymor y Gronfa, mae eleni wedi gweld ail-alinio bychan mewn buddsoddiadau trwy leihau ecwiti actif y DU a chynnydd yn ein cronfeydd aml-ased presennol. Ym mis Ionawr 2019, trosglwyddodd y Gronfa £343.7 miliwn i mewn i is-gronfeydd ecwiti byd-eang ac mae cyfrannau pellach o fuddsoddiad mewn dosbarthiadau ased eraill wedi eu cynllunio dros y flwyddyn nesaf. Mae'r WPP wedi ffurfio Cyd-bwyllgor Llywodraethu o gynrychiolwyr Aelodau Etholedig o'r wyth Gronfa Gymreig ac wedi penodi Link Asset Services fel Gweithredwr Awdurdodedig yr FCA i weinyddu'r trefniadau cronni buddsoddiadau. Mae buddsoddiadau'r Gronfa y tu allan i'r WPP yn aros yn bennaf gyda phum rheolwr cronfa allanol, sef BlackRock, Fidelity Worldwide Investment, Invesco Perpetual, Lazard Asset Management ac Aberdeen Standard Investments. Yr amcan wrth fuddsoddi arian y gronfa yw cael yr elw mwyaf yn gyson gyda lefelau derbyniol o risg. Mae dull arallgyfeirio'r Gronfa yn lleadau'r risg buddsoddi i helpu i gwrdd â'i tharged ariannu hirdymor o 100%.

Adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn 2018/19 a'r cyhoeddiadau presennol ar gael ar wefan y Gronfa:

[www.gwentpensionfund.co.uk](http://www.gwentpensionfund.co.uk)

## Aelodaeth ar 31 Mawrth

Mae aelodaeth gyffredinol y Gronfa wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn gan 1.5% i 60,214 ar 31ain Mawrth 2019. Mae aelodaeth weithredol wedi aros yn wastad tra bo rhai an-weithredol (pensiynwyr ac aelodau gohiriedig sydd wedi gadael y cynllun ond a fydd yn cael budd-daliadau pan fyddant yn ymddeol) wedi cynyddu 2.8%. Effaith net hyn yw bod cyfraniadau gweithredol nawr wedi syrthio i 40% o aelodaeth gyfan y Gronfa gyda 29% o gyfanswm yr aelodaeth yn cael budd-daliadau pensiwn a 31% pellach gyda budd-daliadau gohiriedig.



## Cefndir


Mae'r Gronfa yn gynllun pensiwn budd-daliadau a ddiffiniwyd ar gyfer gweithwyr awdurdodau lleol awdurdodau lleol yng Ngwent Fwyaf, ac eithrio athrawon sydd â chynllun ar wahân. Mae gweithwyr ystod o gyfundrefnau eraill sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus yng Ngwent Fwyaf hefyd yn cael ymuno â'r Gronfa fel cyrff atodol neu rai a gaiff eu derbyn. Ariennir y cynllun gan gyfraniadau a delir gan y gweithwyr, eu cyflogwyr ac elw o fuddsoddi arian y Gronfa. Mae aelodaeth yn awtomatig i holl weithwyr ac eithrio'r rhai sydd â chontract gwaith o lai na thri mis, a all ddevis ymuno, gweithwyr cyrff a dderbynnir a rhai sydd wedi dewis optio allan yn y gorffennol. Gwneir cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Gronfa yn unol â Rheoliadau CPLIL ac yn amrywio o 5.5% i 12.5% o gyflog pensiynadwy yn unol ag enillion blynyddol. Gwneir cyfraniadau hefyd gan y 61 o gyflogwyr gweithredol yn y cynllun, gan gynnwys yr awdurdod gweinyddu ac mae eu cyfraddau yn cael ei pennu gan brisiad actiwaraid bob tair blynedd. Mae cyfraddau cyflogwyr 2018/2019 yn amrywio o 15.2% i 35.8% o gyflog pensiynadwy. Bydd y prisiad actiwaraid nesaf yn digwydd ar 31ain Mawrth 2019 a bydd yn pennu cyfraddau cyfraniad y cyflogwr ar gyfer y tair blynedd sy'n cychwyn ar 1af Ebrill 2020.

## Cyfrifon y Gronfa Bensiwn 2018-2019


	2017/18 £000	2018/19 £000
<b>Incwm</b>		
■ Gan weithwyr a chyflogwyr	111,762	115,499
■ Gan weithwyr yn trosglwyddo o gronfeydd pensiwn eraill	5,704	6,280
■ Incwm ychwanegol gan gyflogwyr yn ymwneud ag ymddeoliad cynnar a chyfraniadau ychwanegol gweithwyr	2,356	2,548
■ Incwm o fuddsoddiadau	21,317	27,211
■ Incwm arall	1	4
<b>Cyfanswm incwm i'r Gronfa</b>	<b>141,140</b>	<b>151,542</b>
<b>Gwariant</b>		
■ Taliadau pensiwn	64,546	67,422
■ Taliadau lwmp swm	25,239	27,706
■ Ad-daliadau lle mae gweithwyr wedi gadael y cynllun	250	266
■ Taliadau pan fydd gweithwyr yn trosglwyddo o gronfeydd eraill	7,553	7,576
■ Taliadau a wnaed oherwydd chwyddiant a chynnydd mewn pensiwn	21,634	23,474
■ Costau rheoli	9,366	9,550
<b>Cyfanswm gwariant o'r Gronfa</b>	<b>128,588</b>	<b>135,994</b>
<b>Incwm ar ôl gwariant</b>	<b>12,552</b>	<b>15,548</b>
<b>Mantolen</b>		
■ Balans ar ddechrau'r flwyddyn	2,699,628	2,790,820
■ Incwm ar ôl gwario	12,552	15,548
■ Newid yn y gwerth ar y farchnad o fuddsoddiadau a werthwyd	80,416	117,298
■ Newid yn y gwerth ar y farchnad o fuddsoddiadau a ddelir o hyd	(1,776)	5,310
	<b>2,790,820</b>	<b>2,928,976</b>
<b>Cynrychiolir gan</b>		
■ Asedau buddsoddi	2,785,140	2,923,582
■ Asedau presennol	11,236	11,453
■ Rhwymedigaethau presennol	(5,556)	(6,059)
<b>Gwerth y Gronfa ar 31 Mawrth</b>	<b>2,790,820</b>	<b>2,928,976</b>

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

**Canran o'r portfolio a ddeler gan y rheolwr cronfa**





**Canran o'r portfolio a ddeler yn ôl dosbarth ased**




Cynyddodd asedau'r Gronfa a gynrychiolir yn bennaf gan fuddsoddiadau £138.156 miliwn yn y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Cafodd y Gronfa hwb o £15.548 miliwn mewn incwm dros wariant, elw o £117.298 miliwn o werthu buddsoddiadau a chynnydd o £5.310 miliwn yng ngwerth y buddsoddiadau ar y farchnad. Roedd y Gronfa yn llwyddiannus dros y flwyddyn gan adrodd elw buddsoddi positif o 5.11% gyda chynnydd yn ei asedau net o £2,790.820 miliwn i £2,928.976 miliwn. Roedd perfformiad cyfunol yr holl ddsbarthiadau ased a rhanbarthau lle mae'r Gronfa yn buddsoddi yn gadarnhaol o ben i ben ond roedd yn danberfformiad o gymharu gyda'n meincnod (6.23%) o 1.12%. Mae perfformiad yn y tymor hirach yn aros yn positif yn erbyn y meincnod ar gyfer cyfnodau adrodd o hyd at 10 mlynedd.



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Graeme Russell  
 Pennaeth Pensiynau  
 Ffôn: 01495 742625  
 neu  
 Joanne Griffiths  
 Rheolwr Pensiynau  
 Ffôn: 01495 766280








# 2018/2019

## Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) Greater Gwent (Torfaen) Pension Fund



Nigel Aurelius, Prif  
Weithredwr  
Cynorthwyo, Adnoddau

